

Nid yw'n fud. Nid yw'n ddall. Nid yw'n fyddar. Llefardd yr Arglwydd wrthym ac fe'n rhybuddiwyd.

Drwy'r drafodaeth am Breccit yr ydym yn y Goleuad yn fwiadol wedi ceisio osgoi mynd yn rhan o drafodaeth sy'n pegynnu barn, yn rhwygo perthynas, yn difa cyfeillgarwch oes.

Nid oeddem am gyfrannu i'r disgwrs ddifaiol presennol.

Beth nesa?

Wrth baratoi'r rhifyn hwn o'r Goleuad gwyddom, er i'r Llywodraeth anfon llythyr yn gofyn am ymestyn perthynas gwledydd Prydain gyda'r Undeb bod y Llywodraeth yn San Steffan yn parhau i gamu'n fras tuag at dorri'r berthynas, heb gytundeb os oes rhaid, yn niwedd yr Hydref. Cilio mae gorwel Breccit fodd bynnag ac nid yw'n debygol y byddwn wedi ymadael cyn i'r rhifyn hwn ymddangos.

Beth bynnag a ddigwydd, dylid cofio nad gêm neu gystadleuaeth ysgafn oedd y drafodaeth a welsom dros y dair mlynedd diwethaf. Er i'r cynllwynio a'r ystryw a'r gemau gwleidyddol ymddangos felly ar brydiau. Bywydau pobl, ffyniant cymdeithas, bywyd gwâr. Dyna oedd a dyna fydd yn y fantol.

Beth bynnag a ddigwydd fe fydd blynyddoedd maith o'n blaenau o drafod a chechu a beio wrth i lywodraethau geisio dod i ddealltwriaeth ag Ewrop am union natur y berthynas.

Dim ond diwedd y dechrau yw hwn!

Terfysgu'r cenhedloedd

Beth bynnag yw ein cred am Breccit, beth bynnag yw'n daliadau gwleidyddol, ni all unrhyw un ohonom fod ag unrhyw amheuaeth fod y cyfnod terfysglyd gwleidyddol hwn wedi bod yn un o'r cyfnodau mwyaf annymunol ers degawdau. Sbaddwyd cwrteisi. Llefardd geiriau bygythiol yn San Steffan – gwelwyd cynnydd mewn geiriau treisgar ac ymosodiadau treisgar ar lawr gwlad.

Clywyd addewidion a chawsant eu torri.

Gwasgarwyd celwyddau a galwyd "tywyllwch" yn "oleuni". Hyd yn oed ymhlith ei lladmeryddion pennaf nid oedd, ac nid oes hyd heddiw, gytundeb am wir ystyr

Breccit. Yr unig beth a wyddom, medde nhw, yw mai ystyr Breccit yw Breccit.

Syrffed

Erbyn hyn syrffedwyd ar y broses yn llawn. Ac nid yw'n glir i drwch poblogaeth yr Ynysoedd hyn mai dim ond dechrau'r broses hirfaith yw'r cam cyntaf hwn.

cymeriad pobl nid oes ond angen i ni ganfod a gwylio yr hyn a garant."

Beth tybed yw'r hyn "a garant" heddiw? Beth sydd uchaf, yn cael y flaenoriaeth, yn yr holl drafodaethau presennol? Beth tybed yw'r gwerthoedd gwaelodol?"

Yn wir, meddai Awstin eto,

"Yn absenoldeb cyfiawnder beth yw llywodraeth ond lladrata treisgar wedi ei gyfreithloni."

Mater o bwys ydyw meddai Calfin bod arweinwyr yn eirwir ac yn gyfiawn. Yn wir, meddai,

"Pan y mae Duw am farnu cenedl y mae'n rhoddi iddi yn gyntaf arweinwyr drwg."

Argyhoeddiad sy'n waelodol i'r ddealltwriaeth Gristnogol o hanes yw ein bod bob un – pob cenedl, pob gwlad, pob cymdeithas, a phob unigolyn, yn atebol yn y pen draw i'r Arglwydd sy'n Greawdwr-Waredwr.

Nid yw'n fud

Nid yw'r Arglwydd cyfiawn hwnnw yn ddall. Nid yw'n fyddar. Nid yw'n fud.


I genhedlaeth falch, gelwyddog, treisgar a thwyllodrus daeth gair yr Arglwydd drwy'r proffwyd Jeremeia.

Geiriau hen iawn ydynt, sy'n gwbl berthnasol i'n hoes a'n cymdeithas a'n gwleidyddia cyfoes.

"Nac ymfrostied y doeth yn ei ddoethineb, na'r cryf yn ei gryfder, na'r cyfoethog yn ei gyfoeth. Ond y sawl sy'n ymfrostio, ymfrostied yn hyn: ei fod yn fy neall ac yn fy adnabod i, mai myfi yw'r ARGLWYDD, sy'n gweithredu'n ffyddlon, yn gwneud barn a chyfiawnder ar y ddaear, ac yn ymhyfrydu yn y pethau hyn," medd yr ARGLWYDD. (Jeremeia 9)

Duw a drugarhao wrthym trwy godi yn ein plith, yn ein cenedl, yn ein byd, bobl a chymunedau sydd â'i bryd ar garu'r hyn sy'n dda a dyrchafol, yn dirion ac yn obeithiol.

(Gol. Os ydych yn anghytuno, cofiwch mae lle i chi ymateb a chyfrannu i'r drafodaeth. Anfonwch air at Taro'r Post.)



Arglwydd yr Arglwyddi

"Nid Duw Abraham, Isaac a Jacob yw dwyfol Arglwydd Pharo na Chesar na pherchnogion caethweision. Ef yw Tad y rhai a ddirmygwyd, gwaredwr y rhai dan ormes."

Jurgen Moltmann

Mae'n amlwg i unrhyw un meddylgar, beth bynnag a ddaw o'r drafodaeth benodol hon, y rhyddhawyd grymoedd fel arian byw; grymoedd ydynt na fydd yn rhwydd i'w costreliu drachefn. Heuwyd trais i awelon ein hymnwneud â'n gilydd- medir corwynt.

Duw y llefaru?

Oes gan Dduw, yr Arglwydd, Crëwr a barnwr cyfiawn y byd i'w ddweud wrthym? Oes.

Ar hyd canrifoedd cred y mae pobl dduwiol wedi bod fel halen a goleuni mewn bywyd cymdeithas. Ac ar hyd y blynyddoedd maent wedi mynnu bod ffordd ragorach o weithredu na chelwydd a thrais.

Dadleuodd Awstin Sant bod modd adnabod gwerthoedd unigolion a chymdeithas dim ond wrth graffu'n fanwl ar eu gweithredoedd: "Er mwyn canfod